Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

4 Tachwedd/November, 2014

At : Aelodau Cygor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **ddydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014 am 2.00 p.m., yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Richard Parry Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 11 November, 2014 at 2.00 p.m., to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Richard Parry Jones*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddidordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Mehefin, 2014.

3 **GENERAL GRANTS COMMITTEE** (Tudalennau 5 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gafwyd ar 8 Gorffennaf, 2014.

4 **CEISIADAU AM GEFNOGAETH GRANT** (Tudalennau 13 - 38)

Derbyn cyflwyniadau ac adroddiadau gan y canlynol am gefnodaeth grant gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn :-

- **Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn**

  Derbyn cyflwyniad a chais gan Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn.

- **Bwrdd Prosiect Camerâu Goruchwylio'r Pum Tref**

  Derbyn cyflwyniad a chais gan Bwrdd Proseict Camerâu Goruchwylio'r Pum Tref.

5 **EITEM SYDD YN DEBYGOL O GAEL EI DRAFOD YN BREIFAT**

Derbyn adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

# PWYLLGOR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2014

**PRESENNOL:** Y Mri. T.Victor Hughes (Cadeirydd)
Aled M.Jones (Is-Gadeirydd)

Lewis Davies, Richard Dew, Jim Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Trefor Ll.Hughes, Llinos M.Huws, Carwyn Jones, G.O.Jones, H.Eifion Jones, Raymond Jones R.Llewelyn Jones, R.Meirion Jones (ar gyfer eitem 9), Alun Mummery, J.Arwel Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands.

**WRTH LAW**: Ysgrifennydd

Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi o hyn ymlaen)

Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro
Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD)
Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BO)
Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**: Jeff Evans, Vaughan Hughes, R.G.Parry, OBE, Dylan Rees, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**: Sian Pierce Roberts (Cadeirydd – Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn), Gerallt Hughes (Cadeirydd – Hyfforddiant Sirol), Ann Postle (Trefnydd Sirol – Mudiad Ffermwyr Ifanc Môn) (ar gyfer eitem 7) Eryl Williams (Swyddog Datblygu Urdd Gobaith Cymru ym Môn), Manon Rowlands, Mari Evans, Carwyn Jones, Iestyn Wyn Lewis (Aelodau Rhanbarthol Urdd Gobaith Cymru yn Ynys Môn) (ar gyfer eitem 8)

---

**1 CADEIRYDD**

Etholwyd Mr T.Victor Hughes yn Gadeirydd ar gyfer Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

**2 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr Aled Morris Jones yn Is-Gadeirydd ar gyfer Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen gan Mrs Llinos Huws a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater hwn. Yn ogystal, datganodd ddiddordeb personol, ond nid un rhagfarnus, mewn perthynas ag eitem 8 ar y sail bod ei phlant yn aelodau o'r Urdd.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol, ond nid diddordeb rhagfarnus, gan Mrs Nicola Roberts mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen oherwydd iddi fod yn aelod o'r Urdd yn y gorffennol ac am fod ei phlant yn aelodau o'r sefydliad ar hyn o bryd. Dywedodd y byddai'n cadw meddwl agored ar y mater.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol, ond nid un rhagfarnus, gan Mr Carwyn Jones mewn perthynas ag eitemau 7 ac 8 ar y rhaglen fel cyn-aelod o Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn ac

oherwydd bod ei blant yn aelodau o’r Urdd.  Dywedodd y byddai'n cadw meddwl agored ar y ddau fater.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol, ond nid un rhagfarnus, gan Mr Aled Morris Jones mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen oherwydd iddo fod yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Rhosybol yn y gorffennol ac am fod ei ferch yn aelod o’r sefydliad hwnnw hefyd ar hyn o bryd. Dywedodd y byddai’n cadw meddwl agored ar y mater.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol, ond nid un rhagfarnus, gan Mr W T Hughes mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen fel cyn-aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Rhosybol a dywedodd yntau hefyd y byddai’n cadw meddwl agored ar y mater.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus gan Mr R P Jones ynghylch eitem 7 ar y rhaglen oherwydd bod Cadeirydd Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn yn berthynas agos iddo a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater.  Yn ogystal, gwnaeth ddatganiad o ddiddordeb nad oedd yn un rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen fel cyfrannwr i fudiad yr Urdd.

**4 COFNODION CYFARFOD 22 EBRILL, 2014**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o Bwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**5 PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2014 ac fe’u mabwysiadwyd lle ‘roedd angen gwneud hynny.

**6 CANLYNIADAU AMODOL 2013/14 A CHYLLIDEB 2014/15**

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor adroddiad yn amlinellu’r canlyniadau amodol ar gyfer 2013/14 ynghyd ag argymhellion ynghylch dyraniadau cyllidol ar gyfer 2014/15.

Dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro fod y canlyniadau rhagamcanedig fel y cawsant eu diweddaru a’u crynhoi yn nhabl 2.5 yr adroddiad yn dangos fod gan gronfeydd refeniw’r Ymddiriedolaeth warged o £210k ar 31 Mawrth, 2014 a bod modd rhagamcanu canlyniadau 2014/15 a 2015/16 yn seiliedig ar amcangyfrif o dwf o 3% ar yr incwm a fuddsoddir. Rhagwelir felly y bydd £471k ar gael i’w wario yn 2014/15 a £484k yn 2015/16.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2014/15 fel y cafodd ei hadlewyrchu yn yr adroddiad ysgrifenedig yn cynnig yr isod –

- Dyraniad o 200k i Oriel Ynys Môn yn unol â’r strategaeth i ostwng cyllid ar gyfer yr Oriel a fabwysiadwyd fel rhan o’r broses o bennu cyllideb 2013/14.

  Yn dilyn trafodaethau gyda Mr Hywel Eifion Jones ac yn wyneb sefyllfa ariannol yr Oriel dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro ei bod yn argymell y dylid codi’r dyraniad o £215k i £220k.

- Dyraniad o £66k i neuaddau pentref.

  Yn dilyn trafodaethau dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro ei bod yn argymell codi’r dyraniad hwn i £80k

- Dyraniad o £50k i gyfleusterau cymunedol ac ar gyfer mân-grantiau

  Dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro ei bod, ar ôl iddi gael trafodaethau, yn argymell glynu wrth y dyraniad o £50k ond y dylid codi lefel pob grant unigol o £6k i £10k y flwyddyn.

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y penderfyniad i fabwysiadu strategaeth i ostwng cyllid ar gyfer Oriel Ynys Môn wedi ei wneud yn rhannol i greu gwahaniad clir rhwng darpariaeth a wneir gan y Cyngor a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth fel endid elusennol.  Ar hyn o bryd mae Oriel Ynys Môn yn cael rhai anawsterau o ran cwrdd â’i thargedau incwm ac mae perygl o orwariant.  Mae Mr

Hywel Eifion Jones yn cynnig gwyro oddi wrth y strategaeth ar gyfer eleni i ganiatáu ar gyfer gwneud dyraniad uwch i'r Oriel. Fodd bynnag, rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddod i benderfyniad ar lefel y cyllid i'r Oriel yn annibynnol ar bersbectif y Cyngor.

Mewn perthynas â'r dyraniad arfaethedig ar gyfer cyfleusterau cymunedol a mân-grantiau, dywedodd yr Ysgrifennydd wrth yr Ymddiriedolwyr yr amcangyfrifir bod cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau, sef 9 Mai (cyn iddynt gael eu harchwilio ar gyfer cydymffurfiaeth gyda meini prawf cyllido'r Ymddiriedolaeth) yn £137k, sydd yn bell y tu hwnt i'r £50k a argymhellwyd fel cyllideb i'w dirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i'r pwrpas hwn. Yn ogystal, mae ceisiadau eraill am gyllid wedi dod i law neu yn yr arfaeth, gan gynnwys ceisiadau gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn ac Urdd Gobaith Cymru sy'n cael sylw yn y cyfarfod heddiw. Fodd bynnag, mae gwario y tu allan i ffiniau'r gyllideb yn golygu defnyddio cyfalaf yr Ymddiriedolaeth o £18m ac mae hynny'n rhywbeth y gall yr ymddiriedolwyr ei wneud os ydynt yn dymuno. Fel ymddiriedolwyr, mae angen i'r Aelodau gadw mewn cof fod gwerth y gronfa yn medru gostwng yn ogystal â chodi gan ddibynnu ar berfformiad y farchnad.

Rhoddodd aelodau'r Ymddiriedolaeth sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan nodi bod ganddynt awydd cynyddu'r gyllideb ar gyfer cyfleusterau cymunedol i gydnabod angen cymunedau am gyllid ac oherwydd bod yr erthyglau yn dweud "y gall Ymddiriedolwyr, ar unrhyw adeg neu adegau yn ôl eu disgresiwn, dalu neu weithredu'r cyfan neu unrhyw ran neu rannau o'r cyfalaf yng nghronfa'r Ymddiriedolaeth i hyrwyddo dibenion elusennol mewn unrhyw fodd y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth". Nodwyd hefyd y gallai gwerth y ceisiadau ostwng ar ôl i'r broses o'u didoli ddod i ben oherwydd bod ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf cyllido yn cael eu hanwybyddu.

Roedd Mr Kenneth Hughes yn dymuno nodi, o gofio'r rheoliadau mewn perthynas â llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ac er gwaethaf y ffaith ei fod yn cefnogi Oriel Ynys Môn, ei fod yn anghyfforddus gyda defnyddio arian yr Ymddiriedolaeth i gefnogi'r Oriel oherwydd ei fod yn credu fod hynny'n tynnu'n groes i'r rheoliadau.

Cynigiodd Mr Alun Mummery y dylid awdurdodi'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo'r holl geisiadau sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf cyllido sydd gan yr Ymddiriedolaeth, gan wneud yn glir y byddai hynny heb ragfarn i unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol a bod rhan o gronfa gyfalaf yr ymddiriedolaeth yn cael ei defnyddio i'r perwyl hwn os bydd angen. Eiliwyd ei gynnig gan Mr Lewis Davies.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod rheolaeth ariannol dda yn golygu pennu cyllideb ac yna ymdrechu i lynu wrthi. Oni fydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn gallu cydymffurfio gyda'r gyllideb a ddyrannwyd dylai roi gwybod i'r Ymddiriedolaeth a gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw wariant ychwanegol. Os oedd aelodau'r Ymddiriedolaeth yn dymuno cymeradwyo'r ceisiadau a dderbyniwyd yn eu cyfanrwydd, yna fe awgrymodd y dylid rhoi sylw i addasu cyllideb 2014/15 i £137k fel bod modd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol gyllido'r holl geisiadau os bydd yn dymuno gwneud hynny. O ran sefydlu cynsail ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, er gwaethaf cynnwys amod, mae cam o'r fath yn gosod cynsail.

Cynigiodd Mr Aled Morris Jones welliant, sef bod y dyraniad ar gyfer cyfleusterau cymunedol a mân-grantiau yn codi i £100k ar gyfer 2014/15 yn unig ar y sail bod sefyllfa cronfa'r Ymddiriedolaeth yn iach ar hyn o bryd ac yn caniatáu ar gyfer cymryd cam o'r fath. Cefnogwyd ei gynnig gan Mr W.T.Hughes. Yn dilyn pleidlais ar y mater cafodd y cynnig gwreiddiol a wnaed gan Mr Alun Mummery ei gario.

Mewn perthynas ag Oriel Ynys Môn, roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cytuno y dylid codi'r dyraniad i £215k yn 2014/15 oherwydd yr anawsterau yr oedd yr Oriel yn eu cael o ran cyrraedd targedau incwm, ond pwysleisiwyd y dylid rhoi mwy o sylw i'r trefniadau cyllido ar gyfer Oriel Ynys Môn gyda golwg ar ddatrys y materion sydd wedi codi, gan ddychwelyd y flwyddyn nesaf i'r strategaeth o ostwng y cyllid ar gyfer yr Oriel.

**Yn dilyn trafodaeth lawn penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu cyllideb ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:**

  - **£215k ar gyfer Oriel Ynys Môn (pleidleisiodd Mr Kenneth Hughes yn erbyn y cynnig hwn am y rheswm a roddwyd uchod)**
  - **£80k ar gyfer Neuaddau Pentref**
  - **Cyfleusterau Cymunedol a Mân-grantiau – gweler isod**

- **Mewn perthynas â chyfleusterau cymunedol a mân-grantiau, awdurdodi'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo'r holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau os ydynt yn cydymffurfio gyda'r meini prawf cyllido sydd gan yr Ymddiriedolaeth, a hynny heb ragfarn i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol a bod rhan o'r gronfa gyfalaf yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn os bydd angen.**
- **Dychwelyd i'r strategaeth ariannol a'r trefniadau cyllido ar gyfer Oriel Ynys Môn yn hwyrach yn ystod y flwyddyn.**

**7 CAIS I'R YMDDIRIEDOLAETH – MUDIAD FFERMWYR IFANC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, gais am gyllid a wnaed gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn. Roedd y cais yn gofyn am gyfraniad blynyddol o £30,000 dros y 5 mlynedd nesaf i gyllido rhan o gostau rhedeg y Ffederasiwn dros y cyfnod hwnnw, ac i hyrwyddo ei raglen o weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. Cefnogwyd y cais gan ddogfennau a oedd yn amlinellu gweithgareddau'r Ffederasiwn yn Ynys Môn yn 2013/14 a sut mae'r rheini'n cyfrannu at ddatblygiad personol ei aelodau, yn ogystal â chyfoethogi bywyd cymunedau lleol ar yr Ynys; hyrwyddo dwyieithrwydd; ei sefyllfa ariannol, a sut mae'n ymdrechu i ddarparu gwerth am arian.

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan Sian Pierce Roberts, Cadeirydd Sirol Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Gerallt Hughes, Cadeirydd Sirol ar gyfer Hyfforddiant ac Ann Postle, Trefnydd Sirol yn annerch yr Ymddiriedolaeth ar y cais a sut byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio, yn ogystal â'r manteision y cawsant hwy yn bersonol o fod yn aelodau o Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn '.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Ymddiriedolaeth ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y Mudiad.

**Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r cais am gyllid a wnaed gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn am £30k y flwyddyn am gyfnod o 5 mlynedd.**

**8 CAIS I'R YMDDIRIEDOLAETH – URDD GOBAITH CYMRU**

Cyflwynwyd i sylw'r Ymddiriedolaeth, gais am gyllid a wnaed gan Urdd Gobaith Cymru. Roedd y cais yn gofyn am gyfraniad blynyddol o £40,000 i ddatblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn dros y 5 mlynedd nesaf fel bod modd i aelodau'r sefydliad gael mynediad i fwy o'i wasanaethau bob dydd ac i ehangu gwaith yr Urdd i gymunedau ar yr Ynys nad ydynt efallai wedi cael y gwasanaeth llawn yn y gorffennol. Cefnogwyd y cais gan ddogfennaeth a oedd yn disgrifio'r gwasanaethau y gall yr Urdd eu cynnig; ei Gynllun Busnes a'i amcanion ynghyd â'i weithgareddau yn Ynys Môn trwy amryfal fforymau, pwyllgorau, aelwydau, eisteddfodau a sianelau eraill.

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan Eryl Williams, Swyddog Datblygu Môn, Manon Rowlands, Mari Evans, Iestyn Wyn Lewis a Carwyn Jones a anerchodd yr Ymddiriedolaeth ar y cais a sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio, gan sôn hefyd am eu profiadau eu hunain fel aelodau o'r Urdd yn Ynys Môn.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Ymddiriedolaeth ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y Sefydliad.

**Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r cais am gyllid a wnaed gan Urdd Gobaith Cymru am £40k y flwyddyn am gyfnod o 5 mlynedd.**

**9 EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT – TIR RHOSGOCH**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad llafar i Aelodau'r Ymddiriedolaeth ar y sefyllfa mewn perthynas â thrafodaethau ynghylch cael gwared ar dir yn Rhosgoch a'r materion a oedd yn codi o hynny. Nododd yr Aelodau'r wybodaeth a gafwyd gan fynegi eu safbwyntiau ar y materion yr adroddwyd arnynt.

**Mr T.Victor Hughes**
**Cadeirydd**

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mri. Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff M. Evans, Jim Evans, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, R.O. Jones, P.S. Rogers. |
| **WRTH LAW**: | Ysgrifennydd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo Dros Dro (BHJ),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid)(BD),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Mrs. Llinos M. Huws. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr. Aled M. Jones - Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Jeff Evans yn Gadeirydd.

Diolchodd i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Jim Evans yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. Lewis Davies ddiddordeb yng nghais 29 - Canolfan Gymunedol Llanfaes a chais 45 - Cae Chwarae Llangoed. Gadawodd Mr. Davies y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y ceisiadau.

Datganodd Mr. Peter S. Rogers ddiddordeb yng nghais 18 - Institiwt Pritchard Jones Cyf., cais 20 - Malltraeth Ymlaen Cyf., a chais 40 - Ysgol Parc y Bont - Cymdeithas Rhieni Athrawon. Arhosodd Mr. Rogers yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar y ceisiadau.

**4 GRANTIAU BLYNYDDOL 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad ar ran y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried ceisiadau oedd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Gwneir y dyraniadau yn flynyddol o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r categorïau canlynol o brosiectau:-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychan)
- Grantiau Eraill (yn bennaf grantiau bychan unwaith yn unig)

Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill, 2014 penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn i awdurdodi'r Pwyllgor hwn i gymeradwyo'r holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn yr amser cau ac a oedd yn

cydymffurfio â meini prawf cyllido'r Ymddiriedolaeth heb ragfarn i unrhyw benderfyniadau mewn blynyddoedd i ddod a bod rhan o'r gronfa gyfalaf yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn pe bai angen hynny. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod 5 cais wedi ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau am grant. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn na ddylid ystyried y ceisiadau hyn.

Roedd y Swyddogion perthnasol o'r adrannau penodol wedi ystyried ac wedi blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd i'r graddau y gellid gwneud hynny ac yn gyson â phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth, y meini prawf a sefydlwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac o fewn swm y cyllid oed ar gael i bob dyraniad. Roedd argymhellion y Swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd system gyfeirio ar y cyd wedi ei defnyddio ar gyfer y grantiau a roddwyd gerbron y pwyllgor hwn ac am geisiadau grant i Gronfa'r Eglwys yng Nghymru; bydd unrhyw fylchau yn y rhifau cyfeirnod wedi eu hachosi oherwydd i'r grantiau hynny gael eu rhoi ymlaen i Gronfa'r Eglwys yng Nghymru yn hytrach nag i'r Ymddiriedolaeth. Nodwyd bod y ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dyrannu Grantiau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol' gyda chopi ohono ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad.

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf am 2014/15 fel a ganlyn:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Digwyddiadau Carnifal Llanfairpwll | Gwella safon yr ystafelloedd newid a chegin | ***(NIL)***<br>*(Nid y sefydliad yw perchennog yr adeilad ac nid oes ganddo brydles arno)* |
| 5. | Canolfan Gymuned Brynsiencyn | I uwchraddio'r system wresogi am un sy'n fwy ynni effeithlon a rhatach i'w redeg | ***£1,844***<br>*(Yn amodol ar ymestyn eu prydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y cwôt ariannol hwn)* |
| 6. | Clwb Dinasyddion Hŷn Millbank | Addasu tolied i'r anabl a thrwsio wal derfyn y tu allan | ***£6,000***<br>*(Hyd at 70% o'r cwôt isaf, uchafswm dyraniad fydd £6,000)* |
| 7. | 2474 Cadetiaid Awyr (Cefni) | Uwchraddio systemau cyfrifiadurol fel gall y cadetiaid astudio ac eistedd arholiadau ar y sylabws Cadetiaid Awyr, yn arwain at gymwysterau 4 BAETIWCH. Hefyd i wella'r profiad hedfan | ***£2,320*** |
| 10. | Cyfeillion Pentraeth | Creu ardal chwarae saff i'r gymuned leol | ***(NIL)***<br>*(Byddai'r ardal ar libart yr ysgol, ac nid yw felly'n gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 11. | Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn | Uwchraddio'r neuadd yn Llanfairpwll (gorchudd rhag glaw i'r to) | ***£2,520***<br>*(Neuadd Llanfairpwll yw cartref Sefydliad y Merched cyntaf ym Mhrydain a byddant yn dathlu eu can mlynedd yn 2015)* |
| 13. | Parc Ffrindiau Pandy | Llwybr a chylchfan i roi mynediad i gadair olwyn yn y lle chwarae | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |
| 14. | Clwb Rygbi Llangefni | Prynu a gosod dugouts | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |

| | | |
|---|---|---|
| 16. Neuadd Eglwys Gymunedol Moelfre | Uwchraddio'r system wresogi | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys oherwydd eu bod wedi derbyn)* |
| 18. Institiwt Pritchard Jones Cyf | Gosod ffenestri newydd ym mwthyn rhif 4 | ***(NIL)***<br>*(Dim yn fath o gynllun y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ei gefnogi o'r blaen)* |
| 19. Clwb Rygbi Porthaethwy | Adeiladu ystafell ffitrwydd / storio offer | ***£6,000***<br>*(Yn amodol ar iddynt ymestyn eu prydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol hon)* |
| 20. Malltraeth Ymlaen Cyf | I ddatblygu ardal chwarae yng nghymuned Bodorgan | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys oherwydd iddynt dderbyn grant yn 2012/2013)* |
| 22. Cymdeithas Chwaraeon Llanfairpwll | Ystafelloedd Newid | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |
| 23. Neuadd Gymuned Bryn Teg | Uwchraddio'r ffenestri a'r drysau tân | ***£4,274*** |
| 27. Cymdeithas Cae Cybi | Gwelliannau i'r ardal chwarae | ***70% o'r cwôt isaf, grant wedi'i chapio ar £3,720*** |
| 28. Cyngor Cymuned Cwm Cadnant | Gwaith trwsio allanol | ***£6,000***<br>*(Cais i ail-rendro rhag i damprwydd ddod i mewn i'r eiddo sydd yn un Restredig Graddfa 2)* |
| 29. Canolfan Gymuned Llanfaes | Gwelliannau i'r Ganolfan yn cynnwys ffenestri, dau ddrws a gwterydd | ***£4,935***<br>*(Yn amodol ar adnewyddu'r brydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol hon.  Y rhagamcan isaf a gyflwynwyd yw am £7,050)* |
| 30. Neuadd Bentref Talwrn | Prynu offer, teledu Fawr, Chwaraewr DVD a System Gemau Cyfrifiadur i'r Ystafell Ysgol Feithrin ac OHP a Sgrin Fawr i'r Brif Neuadd.  Ysgoldy'r Feithrinfa yw'r enw a roddwyd i'r ystafell a byddai defnydd cymunedol i'r offer | ***£1,284*** |
| 32. Cymdeithasol Lenyddol Leinws | Cyllid ar gyfer Siaradwyr / Darlithwyr | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys a'u cyfeirio at ffynonellau eraill o gyllid)* |
| 33. Canolfan Gymuned Moelfre | Uwchraddio'r cyfleusterau i'r gymuned leol – y safle 5 bob ochr | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £4,756***<br>*(yn amodol ar dderbyn ail gwôt)* |

| | | |
|---|---|---|
| 34. Gwasanaeth Gwirfoddoli Arforol | Prynu deunyddiau hyrwyddol, addysgol, i hyfforddi ac offer diogelwch ar gyfer rhaglen o hyfforddiant cymunedol am ddwy flynedd | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £2,850*** *(Wedi darparu dadansoddiad o'r costau ond angen cyflwyno rhagamcanion gan gyflenwyr)* |
| 38. Clwb Ieuenctid Newry | I brynu offer chwarae i'r clwb | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £1,324*** *(Clwb ieuenctid Gwirfoddol i blant 5-11 oed. Yn amodol ar dderbyn ail gwôt)* |
| 39. Canol Llwyfan Boston | Ail-beintio y tu allan i'r neuadd | ***(NIL)*** *(nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau tuag at ail-beintio)* |
| 40. Ysgol Parc y Bont – Cymdeithas Rhieni Athrawon | Adeiladu llwybr coed a wal goed pêl-doed | ***(NIL)*** *(Mae'r caeau chwarae yn rhan o Ysgol Parc y Bont, ac felly nid ydyw'n gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 41. Grŵp Rhwydwaith Cymru Dysgu Awyr Agored Ynys Môn | I redeg 2 ddiwrnod addysgol a 2 ddiwrnod yng Ngŵyl Coedlan Ynys Môn | ***(NIL)*** *(Dim yn gais penodol ac felly ddim yn glir i beth y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio)* |
| 45. Cae Chwarae Llangoed | I brynu Ffrâm Ddringo | ***(NIL)*** *(Diffyg gwybodaeth yn y cais)* |
| 46. Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch | Drysau newydd yn ffrynt yr adeilad | ***(NIL)*** *(Dim yn gymwys oherwydd iddynt dderbyn grant yn 2013/2014)* |
| 47. Neuadd Cymuned Benllech a Chyn-filwyr | Uwchraddio a newid gwaith trydan y neuadd a gosod goleuni LED | ***£6,000*** |
| 48. Clwb Cychod Cemaes | Prynu RIB addas (cwch y gellir ei phwmpio) i'w defnyddio fel cwch diogelwch | **£3,500** |
| 49. Pwyllgor Cae Chwarae Tregele | Prynu offer chwarae | ***£6,000*** *(Mae'r Pwyllgor wedi derbyn grantiau eraill o £24,000)* |
| 50. Cyngor Cymuned Llaneilian | Wyneb diogelwch newydd yng nghaeau chwarae Penysarn | ***£2,923*** |
| 52. Cae Chwarae Llanfaethlu | Prynu seti a byrddau i'r parc | ***£2,224*** *(Yr amcangyfrif rhataf a gyflwynwyd yw £3,177)* |

| | | |
|---|---|---|
| 53. Menter Mechell | I helpu i gyllido prynu'r hen Swyddfa Bost yn Llanfechell. Bydd yn cael ei adfer a'i addasu gan breswylwyr y pentref fel siop ym mherchnogaeth y gymuned a chanolfan gymdeithasol i'r gymuned | ***£6,000*** *(Mae'r grŵp wedi codi £123,000 tuag at brynu'r adeilad a byddai'r grant yn eu galluogi i bron iawn gyrraedd eu targed)* |
| 54. Cyngor Cymuned Kingsland | Adnewyddu'r system gwres canolog | ***£6,000*** *(Yn amodol ar dderbyn prawf o ddeiliadaeth)* |
| 55. Ffrindiau Parc y Gors | Gwelliannau i'r cae chwarae | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £6,000*** |
| 56. Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | Trwsio'r wyneb diogelwch, ail-dywarchu ardal ar gyfer chwarae pêl-droed, seti newydd, goliau pren a bin sbwriel newydd | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £2,310*** |
| 59. Cyngor Cymuned Tref Walchmai | Adnewyddu a thrwsio cofeb/cloc y pentref | ***£6,000*** *(Mae'r Cyngor Cymuned wedi sicrhau grantiau £16,922 o ffynonellau eraill. Gan nad oes ond un cwmni yn yr ardal hon sy'n gwneud gwaith o'r math hwn, nid ydynt ond yn gallu cyflwyno un dyfynbris)* |
| 60. Unigolyn Preifat | Cyhoeddi llyfr o farddoniaeth | ***NIL*** *(Nid yw unigolion yn gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 62. Clwb Pêl-droed Trearddur | Fel y gall clwb pêl-droed cymunedol gweithredol barhau | ***(NIL)*** *(Dim un cynllun penodol wedi ei nodi ar y cais a dim dyfynbrisiau wedi'u cyflwyno)* |
| 64. Cyngor Cymuned Bryngwran | Ffensio newydd i ardal chwarae gymunedol | ***£2,398*** *(Bwriad y Cyngor Cymuned yw newid yr hen ffens weiren gyda ffens newydd nid yn unig i wella'r cae chwarae ond i sicrhau diogelwch i'r ardal chwarae plant)* |
| 65. Cyngor Cymuned Penmynydd | Meinciau i'w lleoli mewn gwahanol lefydd yn y gymuned i gerddwyr gael gorffwys ac i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio | ***£945*** |
| 67. Cyngor Cymuned Y Fali | Darparu ystafell gymunedol/gyfarfod | ***(NIL)*** *(Wedi derbyn grant yn 2012/13)* |

| | | |
|---|---|---|
| 68. Cymdeithas Rhandiroedd Bryn Du | Prynu politwnel, offer garddio a ffensio er mwyn sefydlu grŵp tyfu llysiau | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £2,051*** |

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd i dderbyn grantiau bach 2014/2015 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| 15. Fforwm Anabledd Taran Cyf. | I allu datblygu papur newydd llafar yn wythnosol ar CD i rhai a nam gweledol ym Môn a bydd hyn yn cynnwys cyrraedd pobl mewn lleoliadau gwledig. Byddai'r cyllid yn galluogi i'r gwasanaeth gael ei ddarparu am 12 mis gyda golwg ar ddod yn hunangynhaliol | ***£1,000*** |
| 17. Ymgeisydd Unigol | I helpu i gyllido'r rhent a threthi siop yng Nghaergybi gyda'r bwriad o werthu eitemau i godi arian i wahanol elusennau. | ***NIL*** *(Nid yw unigolion yn gymwys i dderbyn cyllid grant)* |
| 21. Pensiynwyr Llanfaethlu | Fel y gall y grŵp gael gweithgareddau awyr agored h.y. tripiau dydd na allant fynd arnynt eu hunain. | ***NIL*** *(Byddai hyn yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ac yn lleihau unigedd. Foddbynnag nid yw'r cais yn darparu gwybodaeth ar sut y cafwyd y swm y gofynwyd amdano (dim dadansoddiad o amcanion cost) ac nid yw chwaith yn nodi'r deilliannau o unrhyw gyllid (dim gwybodaeth ar faint o dripiau / cyrchfanau posibl ac ati)* |
| 31. Yr Eglwys yng Ngymru – Plwyf Biwmares | I wella profiad yr ymwelydd i'r saith eglwys ym Miwmares drwy ddarparu byrddau arddangos hanesyddol a chyhoeddi llyfryn | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 35. Esgobaeth Bangor | Cofnodiadau Archeolegol o Gladdfeydd Alabaster 14 Ganrif a darparu byrddau dehongli dwyieithog am y claddfeydd, hanes teulu'r Tuduriaid ac Eglwys St. Gredifael, Penmynydd | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 44. Partneriaeth Gymunedol Porthyfelin | Arian cyfatebol tuag at y prosiect CHIME *(Community Heritage Initiative for Maritime Engagement)* | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 51. Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd | I osod cyflenwad dwr parhaol i'r fynwent yn Llannerch-y-medd | ***(NIL)*** |

| | | |
|---|---|---|
| 58. Cyngor Tref Amlwch | I ymestyn mynwent y dref | ***(NIL)***<br>*(Ni chyllidwyd gwaith ar fynwentydd o'r blaen)* |

**PENDERFYNWYD:-**

- **cymeradwyo'r symiau fel a nodwyd uchod (£x) [gyferbyn a'r symiau a argymhellwyd], gyda hynny ar raddfa grant o 70%.**

- **na fyddai'r ceisiadau hwyr a dderbyniwyd yn cael eu hystyried.**

- **Diolch i Swyddogion am eu gwaith caled yng nghyswllt y ceisiadau hyn.**

Dangoswyd plac yn y cyfarfod, sef plac i gydnabod derbyn cefnogaeth ariannol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Nododd yr Ysgrifennydd y byddai disgwyl i'r sefydliadau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol arddangos y plac mewn cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a gawsant gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**MR. J.M. EVANS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn
# Ynys Môn Island Games Association



## Ymddiriedolaeth Elusennol
## Charitable Trust
## 11 /11 / 2014

Eitem 4 ar y Rhaglen

# Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn
# Ynys Môn Island Games Association

- Aelodau gwreiddiol o'r IIGA
- Wedi'i sefydlu ers 1985
- Ynys eang
- Cymdeithas chwaraeon gwirfoddol
- Cefnogi'r gan CSYM

- IIGA founder members
- Established since 1985
- Island wide
- Voluntary sports association
- Supported by IOACC

# Manteision
# Benefits

- Cystadleuaeth ryngwladol
- Digwyddiad proffil uchel
- Cyfle i gynrychioli eich ynys
- Cyfnewid diwylliannol
- Rhyngweithio cymdeithasol

- International competition
- High profile event
- Opportunity to represent your island
- Cultural exchange
- Social interaction

# 18 Chwaraeon
# 18 Sports

- Saethyddiaeth - Archery
- Athletau - Athletics
- Badminton
- Pêl Fasged - Basketball
- Bowls
- Beicio - Cycling
- Pêl Droed - Football
- Golff - Golf
- Gymnasteg - Gymnastics
- Jiwdo - Judo
- Hwylio - Sailing
- Saethu - Shooting
- Nofio – Swimming
- Sboncen - Squash
- Tenis Bwrdd - Table Tennis
- Tenis - Tennis
- Triathlon
- Volleyball

# Ein Cais
# Our Bid

Rydym yn gwneud cais am gyllid ar gyfer y datblygiadau dros y 5 mlynedd nesaf



- Blwyddyn 1 = £50,000
- Blynyddoedd 2 - 5 = £40,000 y blwyddyn

- Fydd cais llwyddiannus yn sicrhau dyfodol y gemau ar Ynys Môn dros y 5 mlynedd nesaf

We are applying for funding, over the next 5 years, for these developments

- Year 1 = £50,000
- Years 2 - 5 = £40,000 per year

- A successful bid will secure the future of the Games on Isle of Anglesey over the next 5 years

# Costau i'r Gymdeithas
# Costs for the Association

- Cymorth teithio
- Cit
- Cyrsiau hyfforddiant
- Gweithdai
- Achrediad
- Llety
- Yswiriant
- Llogi cyfleusterau
- Adnabod dawn
- Cystadlaethau
- Digwyddiadau cyfranogiad
- 2015 Rhyng-Gemau Gymnasteg

- Travel assistance
- Kit
- Coach education
- Workshops
- Accreditation
- Accommodation
- Insurance
- Facility hire
- Talent ID
- Competitions
- Participation events
- 2015 Gymnastics Inter-Island Games

# Pam gwneud cais?
# Why apply?

- Gwella perfformiad
- Cynyddu cynrychiolaeth
- Cynyddu ymwybyddiaeth lleol
- Ymestyn yr iaith a diwylliant
- Diogelwch ariannol ar gyfer CGYYM
- Sicrhau cynrychiolaeth Ynys Môn

- Improve performance
- Increase representation
- Increase local awareness
- Extend the language and culture
- Financial security for YMIGA
- Secure Isle of Anglesey's representation

# Gwella Perfformiad
# Improve Performance

- Cymorth meddygol
- Cymorth maeth
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth cyffuriau
- Hyfforddwyr cymwysedig
- Defnydd o gyfleusterau ac offer lleol
- Cymorth lleol cryfach
- Cyfranogiad gynyddol

- Medical support
- Nutrition
- Drug awareness training
- Qualified coaches
- Increased access to local facilities and equipment
- Stronger local support
- Increased participation

# Datblygiad Athletwyr
# Athlete Development

- Hyfforddiant arbenigol
- Llogi cyfleusterau – mwy o fynediad, mwy aml
- Adnabod dawn
- Cynyddu cyfranogiad
- Cynyddu aelodaeth yng nghlybiau lleol

- Specialist coaching
- Facility hire – more access, more often
- Talent identification
- Increase participation
- Increased membership at local clubs

# Datblygiad Hyfforddwyr a Swyddogion
# Coach and Official Development

- Cynyddu y nifer o hyfforddwyr cymwysedig a gwella safon hyfforddiant yn gyffredinol
- Uwchsgilio swyddogion meddygol
- Addysg i hyfforddwyr
- Gweithdai hyfforddwyr
- Llysgenhadon ifanc

- Increase the number of qualified coaches and improve the overall standard of coaching
- Medical upskilling
- Coach education
- Coach workshops
- Young ambassadors

# Cynyddu Cynrychiolaeth
# Increase Representation

- Cynnydd y nifer o chwaraeon efo chynrychiolaeth o Ynys Môn
- Cynnydd y nifer o athletwyr sy'n cynrychioli Ynys Môn

- Increased number of Sports represented by Isle of Anglesey
- Increased number of athletes representing Isle of Anglesey

# Cynyddu Ymwybyddiaeth Lleol
# Increase Local Awareness

- Digwyddiadau cyfranogiad
- Sesiynau ysgolion
- Ymweliadau athletwyr
- Presenoldeb yn y gymuned

- Participation events
- School based sessions
- Athlete visits
- Community presence

# Iaith a Diwylliant
# Culture & Language

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Ynys Môn
- Datblygu hyfforddwyr dwyieithog
- Cynnal Rhyng-Gemau Gymasteg 2015

- Increase awareness of Welsh language and culture of Isle of Anglesey
- Develop bilingual coaches
- Host 2015 Inter-Games Gymnastics

# Ynys Môn 2015 - Gymnasteg
# Ynys Môn 2015 - Gymnastics

- 8 ynys yn cystadlu
- 5 diwrnod o gystadleuaeth
- 180 o gystadleuwyr, hyfforddwyr a swyddogion (amcangyfrif)
- Cyfle i arddangos Ynys Môn

- 8 competing islands
- 5 days of competition
- 180 competitors, coaches and officials (estimated)
- Opportunity to showcase Isle of Anglesey

# Cefnogaeth
# Support

Rydym yn falch o gefnogaeth y canlynol:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Uned Datblygu Chwaraeon
- Arweinwyr gwleidyddol lleol
- Cyfryngau lleol
- Gymuned fusnes lleol
- Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol

We are pleased to have the support of the following:

- Isle of Anglesey County Council
- Sports Development Unit
- Local political leaders
- Local media
- Local business community
- National Governing Bodies

# Proffil Athletwr
# Athlete Profile
## Iolo Hughes



# Proffil Athletwr
# Athlete Profile
## Siwan Jones



# Proffil Gwirfoddolwr
# Volunteer Profile
## John Hughes



# I grynhoi
# To summarise

- Blwyddyn 1 = £50,000
- £40,000 y flwyddyn i ddilyn am 4 mlynedd
- Cynyddu;
  - Cyfranogiad
  - Aelodaeth
  - Cynrychiolaeth
  - Perfformiad
  - Ymwybyddiaeth
- Sicrhau dyfodol y gemau ar Ynys Môn

- Year 1 = £50,000
- £40,000 a year to follow for 4 years
- Increase;
  - Participation
  - Membership
  - Representation
  - Performance
  - Awareness
- Secure the future of the games on Isle of Anglesey

# Diolch yn Fawr

# Thank You

**Hoffem ddiolch i chi am y cyfle i gyflwyno**

**We would like to thank you for the opportunity to present**

Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd - Ynys Môn - Island Games Association

Atodiad 1

## Cymdeithas Ynysoedd Ynys Môn Island Games Association
## Cynllun Datblygu - Development Plan 2015 - 2019

| | Jersey 2015 | 2016 | Gotland 2017 | 2018 | Faroes Island 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1 Year 1 | Blwyddyn 2 Year 2 | Blwyddyn 3 Year 3 | Blwyddyn 4 Year 4 | Blwyddyn 5 Year 5 |
| **Cyfranogiad Participation** | | | | | |
| Digwyddiadau Chwaraeon Ysgol School Sports Events | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Digwyddiadau hyrwyddo Promotional Events | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| e.e. Sioe Môn, Diwrnodau Agored e.g. Anglesey Show, Open Days | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | | | | |
| **Cystadleuaeth Competition** | | | | | |
| Cynnal Rhyng-Gemau £10,000 Host Inter-Games £10,000 | ✓ | | | | |
| Cymorth Teithio Travel Assistance | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Cymorth Meddygol e.e. Ffisio Medical Support e.g. Physio's | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Cit Kit | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | | | | | |
| **Hyfforddiant** | | | | | **Training** |
| Costau Hyfforddi Coaching Costs | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hyfforddwyr Coach Education | | ✓ | | ✓ | |
| Uwchsgilio Meddygol Medical Upskilling | | ✓ | | ✓ | |
| Cryfder a Chyflyru Strength & Conditioning | | ✓ | | ✓ | |
| Gweithdai Hyfforddi Coaching Workshops | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | | | | |
| **Mesurau Llwyddiant Measures of Success** | | | | | |
| Nifer yr Athletwyr Number of Athletes | 130 | | 140 | | 150 |
| Medal Cyfanswm Medal Total | 8 | | 12 | | 16 |
| Cynrychioli Chwaraeon Sports Represented | 10 | | 12 | | 13 |
| Nifer yr hyfforddwyr yn Lleol Cymwysedig Number of Newly Qualified Local Coaches | 0 | 40 | 20 | 40 | 20 |
| Nifer yn mynychu Digwyddiadau Chwaraeon Ysgol YMIGA Number attending YMIGA School Sport Events | 200 | 400 | 200 | 400 | 200 |
| Nifer y Hoffi Facebook Number of Facebook Likes | 300 | 350 | 400 | 450 | 500 |
| Nifer y Twitter Dilynwyr Number of Twitter Followers | 300 | 400 | 500 | 600 | 700 |

**Dadansoddiad o'r costau ar gyfer Athletwyr 2013, 2015, 2017 & 2019**
**Breakdown of costs for Athletes 2013, 2015, 2017 & 2019**

| Costau: Achrediad, Cit, Teithio, Yswiriant, Llety<br>Costs: Accreditation, Kit, Travel, Insurance, Accommodation | Blwyddyn Year | Cost am bob Athletwr Cost per Athlete | Nifer of Athletwr No of Athletes | Cynrychioli Chwaraeon Sports Represented | Costau Amcangyfrif Estimated Costs |
|---|---|---|---|---|---|
| Bermuda | 2013 | £1,900.00 | 46 | 3 | £87,400.00 |
| Jersey | 2015 | £615.00 | 130 | 10 | £79,950.00 |
| Gotland | 2017 | £750.00 | 140 | 12 | £105,000.00 |
| Faroe Islands | 2019 | £850.00 | 150 | 13 | £127,500.00 |

**Find Us on Facebook: Ynys Mon Island Games Association & Ynys Môn Inter Games**

Website: www.ymiga.com
**Follow us on Twitter: @YMIGA_2015** & **@InterGames_2015**

| I: | Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |
|---|---|
| Adroddiad gan: | Bwrdd Prosiect Camerâu Goruchwylio'r Pum Tref |
| Dyddiad: | 11 Tachwedd 2014 |
| Cadeirydd: | Guy Blackwell |

## 1.0 CYFLWYNIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gyda golwg ar gyflwyno cais am gyllid cyfalaf i wella ymhellach y systemau Camerâu Goruchwylio yn y 5 tref. I bwrpasau'r prosiect hwn, mae'r 5 cyngor tref ar Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu i fynd â chynlluniau hanfodol yng nghyswllt Camerâu Goruchwylio yn eu blaen er mwyn helpu i fynd i'r afael â throsedd ac anrhefn ac i wella diogelwch cymunedol o 2014 - 2024

## 2.0 CEFNDIR / HANES

2.1 Sefydlwyd y cynlluniau Camerâu Goruchwylio cyfredol o ganlyniad i gyllid Trosedd ac Anrhefn y Swyddfa Gartref yn 2002 ac ers hynny maent wedi eu cynnal a'u cadw a'u datblygu gan y Cyngor Sir hyd at fis Mehefin 2014. Ers hynny ac yn dilyn rownd o ymgynghori cyhoeddus mewn cyswllt â mesurau cwtogi a chynlluniau arbed, daeth yn aneconomaidd i'r Cyngor Sir barhau i gynnal y Camerâu Goruchwylio yn eu ffurf bresennol. Ers i'r mesur hwn gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor, mae'r 5 Cyngor Tref o Gaergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares wedi paratoi ac wedi arwyddo cytundeb trosglwyddo i gynnal a chadw a rhedeg y systemau cyfredol hyd ddiwedd mis Medi 2014.

2.2 Yn dilyn cyswllt cychwynnol ag Ymddiriedolaeth Ynys Môn, rhoddodd y Cyngor Sir ganiatâd i ymestyn y trefniant cyfredol hyd nes y gallai cais gael ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am arian cyfalaf i uwchraddio'r caledwedd Camerâu Goruchwylio sydd yn awr yn heneiddio.

2.3 Pan sefydlwyd y cynllun cyfredol, hwn oedd y cynllun recordio digidol gyntaf yng Nghymru ac y mae wedi bod yn hynod o werthfawr yn lleihau trosedd yn gyffredinol gan 40% ar Ynys Môn dros y ddegawd ddiwethaf. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystyried bod y Camerâu Goruchwylio wedi bod yn hanfodol o ran gwneud strydoedd Ynys Môn yn llefydd diogelach ac mae'n credu y byddai colli cynllun fel hwn yn hynod o niweidiol i fusnesau, y cyhoedd yn gyffredinol, ymwelwyr, yr amgylchedd, buddsoddi mewnol yn y dyfodol, swyddi a thwf economaidd.

## 3.0 Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

3.1 Mae'r 5 cyngor tref bellach wedi dod at ei gilydd fel un corff i drafod y ffordd orau o sicrhau parhad yr hen gynllun a ffyrdd i'w wella. Fe wnaed arolwg manwl o'r holl gamerâu presennol i ganfod nifer o ffactorau:

1. Integriti'r camerâu
2. Materion cynnal a chadw
3. Cysylltiadau ffibr optig
4. Caledwedd recordio
5. Cwmpas y camerâu
6. Gallu cael at dystiolaeth
7. Sicrhau bod y dechnoleg yn addas i'r dyfodol

3.2 Cafwyd cyngor gan y peiriannydd a ddyluniodd ac a adeiladodd y cynllun yn wreiddiol yn ogystal â mewnbwn technegol a chefnogaeth i'r pwyllgor am gyfnod o 3 mis gan y Cyngor Sir.

3.3 Mae'n ddymunol o bersbectif comisiynu i gael un fanyleb dechnegol a thechnoleg gyson i bob un o'r 5 tref.

3.4 Agwedd yr Heddlu yw bod yn rhaid i'r holl dystiolaeth a recordir fod ar gael iddynt ac y dylent ei gael mewn ffurf y gellir ei ddefnyddio gan y llysoedd fel tystiolaeth.

3.5 Rydym eisoes wedi cael y prisiau a'r dyfynbrisiau ar gyfer yr amrywiol gynlluniau ym mhob tref.

## 4.0 MANTEISION Y CYNLLUN

4.1 Y fantais i'r holl bartïon yw y bydd cynnal a chadw system o Gamerâu Goruchwylio yn parhau i leihau cost trosedd i breswylwyr, ymwelwyr a busnesau. Rhaid edrych ar system Camerâu Goruchwylio fel un fydd yn y pen draw yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn gostwng nifer yr achosion o fwrgleriaeth a dwyn o siopau ac yn helpu i fynd i'r afael â throseddau treisgar heb sôn am gamddefnyddio sylweddau a'r effeithiau negyddol a gaiff yfed alcohol yn ormodol ar drefi a chymunedau.

4.2 Mae Camerâu Goruchwylio yng nghanol trefi yn rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd y gallant fynd o amgylch eu busnes yn ddyddiol gyda hyder ac mae'n rhoi diogelwch ychwanegol i aelodau'r gymuned fusnes ac yn afon neges glir i'r rhai sy'n troseddu neu'r rhai sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol y byddant yn cael eu dal a'u herlyn.

4.3 Mae'r Camerâu Goruchwylio wedi eu dylunio i helpu gydag atal a darganfod trosedd a chreu cymunedau mwy diogel drwy:

- Ddarparu tystiolaeth i'r asiantaethau gorfodaeth perthnasol
- Cynnal trefn gyhoeddus
- Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans
- Darparu Sicrwydd
- Cefnogi rhaglen adfywio 3 tref Ynys Môn

**5.0 CEFNOGAETH Y CYHOEDD**

5.1 Yn ystod Gorffennaf ac Awst 2014 cynhaliwyd arolwg cyhoeddus gyda phreswylwyr ac ymwelwyr ar draws Ynys Môn i gael eu teimladau a'u syniadau ar ddyfodol y Camerâu Goruchwylio. Cytunodd 96% o'r ymatebwyr i gadw gwasanaeth Camerâu Goruchwylio ac roedd 80% ychwanegol yn gefnogol i'r syniad o geisio cael cymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

5.2 Dau bwynt oedd yn ymwneud â diogelwch a sicrwydd y cyhoedd oedd:

- Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ym mhle rydych chi'n teimlo'n fwyaf anniogel?' dywedodd 75% o'r ymatebwyr 'ar y stryd'.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A ydych chi yn fwy pryderus ynglŷn â diogelwch ar rai amseroedd penodol o'r dydd?' dywedodd 70% o'r ymatebwyr - yn ystod y gyda'r nos ac yn ystod y nos.

5.3 Gellir gweld dadansoddiad pellach yn dangos yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn **atodiad 1** sydd ynghlwm.

5.4 Ers mis Awst, rydym wedi parhau i geisio sicrhau barn y cyhoedd drwy ddeisebau ar draws pob un o'r 5 prif dref ym Môn.

**6.0 CYFRIFOLDEB Y CYNLLUN**

6.1 Pe bai'n llwyddiannus, mae'r 5 cyngor tref wedi gwneud ymrwymiad cryf i fabwysiadu a rheoli'r cynllun am y 10 mlynedd nesaf gyda golwg ar gael trafodaethau pellach gyda datblygwyr mwy ynglŷn â'u cyfraniad tuag at wella diogelwch y cyhoedd ar Ynys Môn.

6.2 Yn naturiol, rhywbeth i bob cyngor tref fyddai cymryd cyfrifoldeb am ei gynllun ei hun o ran y dyluniad cychwynnol, cynllunio, caffael, ffyrddfreintiau, cynnal a chadw ac anghenion monitro /mynediad.

6.3 Bydd Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio'n agos gyda phob cyngor tref dan nawdd Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

6.4 Bydd cytundeb yn cael ei lunio rhwng y 5 cyngor tref a'r Heddlu er mwyn sicrhau bod pob cynllun yn cynnal côd ymddygiad a safonau recordio sy'n berthnasol i gasglu tystiolaeth. Mae hyn yn unol ag Arfer Dda'r Swyddfa Gwyliadwraeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

6.5 Mae'r 5 cyngor tref wedi derbyn dyfynbrisiau wedi'u llunio i gynnal eu systemau camerâu diogelwch ar gost o £20,000 y flwyddyn dros gyfnod ymrwymedig o 10 mlynedd (£200,000).

6.6 Mae trafodaethau'n cael eu cynnal o fewn y 5 cyngor tref ynglŷn â rheoli'r cynllun i benderfynu a fydd hynny'n digwydd o dan y strwythur presennol neu drwy gwmni a gyfyngwyd drwy warant.

**7.0 AGWEDDAU ARIANNOL**

7.1 Byddai'r holl galedwedd a gâi ei brynu yn gyfrifoldeb i bob cyngor tref unigol. Bydd hyn yn cynnwys darparu yswiriant am y caledwedd, atebolrwydd cyhoeddus ac ati. Bydd cyfanswm y swm y gwneir cais amdano gan yr ymddiriedolaeth yn cael ei rannu yn unol â'r dyfynbrisiau a dderbynnir gan bob cyngor tref.

7.2 Rhaid cadw mewn cof bod pob un o'r cynghorau tref hefyd yn barod i fuddsoddi eu cronfeydd eu hunain yn y cynllun newydd, ac mae Heddlu Gogledd Cymru fel partner allweddol hefyd wedi rhoi addewid o gyfraniad ariannol pe bai'r ymddiriedolaeth elusennol yn gweld ei ffordd yn glir i gefnogi'r cais.

7.3 Bydd unrhyw gyfrifoldeb am hapddigwyddiadau'n cael ei ddwyn gan y cynghorau tref.

**8.0 ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir felly, i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ystyried y swm o £195,000.**

*Os caiff y swm ei gymeradwyo, bydd yn galluogi'r 5 prif dref ym Môn i gael technoleg yr 21ain ganrif fydd yn cynnwys camerâu manylder uwch 360 gradd gyda gwelliant sylweddol mewn ansawdd tystiolaethol dros y cynllun presennol. Bydd o gymorth pellach i'r Heddlu a phartneriaid eraill i gyflawni eu dyletswyddau o ran gostwng trosedd ac anrhefn ac yn gwella diogelwch cymunedol ar amser pan mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer datblygiad economaidd sylweddol mewn prosiectau a fydd werth dros £25 biliwn i gyd.*

**Atodiad 1**

CCTV report & feedback.doc